

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Perfformiad

Dyddiad: Dydd Gwener, 1 Mehefin
2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 7 MEHEFIN 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR AELODAU ETHOLEDIG AM 9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 7 - 8)

Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19 (gweler ynghlwm gopi o ddisgrifiad swydd ar gyfer Aelod Craffu a Chadeirydd / Is-Gadeirydd)

4 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2018 (copi ynghlwm).

10:00am – 10:05am

6 DEFNYDDIO KINGDOM SECURITY LTD AR GYFER GORFODAETH TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn amlinellu sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei contract gwaith gorfodaeth troseddau amgylcheddol gyda Kingdom Security Limited a gofyn i'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cabinet mewn perthynas â darpariaeth y gwasanaethau hynny yn y dyfodol.

10:05am – 11:05am

~~~EGWYL 11:05am – 11:15am ~~~

7 Cwynion Perfformiad Eich Llais (CH4) (Tudalennau 29 - 40)

Ystyried Adroddiad gan y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor gyflawni ei rôl mewn perthynas â chraffu ar berfformiad y Cyngor wrth ymdrin a dysgu o gwynion.

11:15am – 11:45am

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 41 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn diweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Jones (Cadeirydd) Y Cynghorydd Hugh Irving

Ellie Chard
Ann Davies
Martyn Holland
Geraint Lloyd-Williams

Bob Murray
Arwel Roberts
David Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

(vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**
Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd

1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Balchder
 - Hygredd
 - Parch
 - Undod
 - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
 - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
 - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod Performance Scrutiny Committee a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin ar Dydd Iau, 26 Ebrill 2018 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Martyn Holland, Hugh Irving (Vice-Chair), Huw Jones (Chair), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Arwel Roberts and Peter Scott

Aelodau Cyfetholedig Kathleen Jones, David Lloyd a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer eitemau busnes 5 a 6 a'r diweddariad ar Goleg Dinbych.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc) a Julian Thompson-Hill (Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau) wedi mynychu ar gais y Pwyllgor ar gyfer eitemau busnes 5, 6 a 7).

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KE), Uwch Swyddog Gwella Ysgolion – Uwchradd (JM), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK) a Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (EH)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd David Williams a'r Aelod Cyfetholedig Mike Hall.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganwyd cysylltiad personol gan y Cynghorwyr:

- Ellie Chard - Llywodraethwr Ysgol Tir Morfa ac Ysgol Mair
- Martyn Holland – Llywodraethwr Ysgol Bro Famau
- Huw Jones - Llywodraethwr Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog
- Arwel Roberts – Llywodraethwr Ysgol Y Castell ac Ysgol Dewi Sant
- Peter Scott - Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwy a Brynhyfryd
- Graham Timms – Llywodraethwr Ysgol Dinas Bran

3 **MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

Ar y pwynt hwn fe groesawodd y Cyngor y Prif Weithredwr newydd i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd gyda'r Cyngor. Ymatebodd y Prif Weithredwr ei bod yn edrych ymlaen at ei rôl newydd gan ddiolch i'r cynghorwyr a'r staff am y croeso cynnes i'r Cyngor.

4 **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD *bod cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

5 **CYNNYDD DISGYBLION O FLWYDDYN 10 I FLWYDDYN 11 (CA4)**

Wrth groesawu'r Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Uwch Swyddog Gwella Ysgolion – sy'n rhan o'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad cyntaf – hoffai'r Pwyllgor eu llongyfarch nhw am eu gwaith caled oedd wedi arwain at Estyn, yn dilyn archwiliad diweddar, i ddatgan fod y Gwasanaeth yn cyflawni canlyniadau da a gyda gwasanaethau addysg o safon a chyda arweinyddiaeth a rheoli rhagorol. Mae rhinweddau arwain y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant wedi'u nodi fel "hynod effeithiol a theilwng", gydag aelodau yn ei llongyfarch ac yn gofyn iddi ddatgan hynny hefyd i staff y Gwasanaeth.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc yr adroddiad (wedi'i ddsbarthu'n barod) a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried darganfyddiadau'r astudiaeth a wnaed ar ddisgyblion Blwyddyn 10 o ddewis pynciau i gyrhaeddiad. Yn ystod ei gyflwyniad fe hysbysodd Aelod Arweiniol y Pwyllgor fod Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017-2022 yn cynnwys yr uchelgais i weld fod pob plentyn yn cyflawni'r safonau disgwylidig ar ddiwedd ysgol gynradd, yn cyflawni o leiaf 5 TGAU A* - C (yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg) erbyn diwedd ysgol uwchradd. Mae Estyn wedi cyfeirio at yr uchelgais hwn yn ei adroddiad diweddar.

Cynghorodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y Cyngor yn cydnabod bod diffyg mewn cyrhaeddiad yn bodoli rhwng cyfnodau allweddol (CA) 2 a 4, gyda pherfformiad yn mynd ar ei lawr yn sylweddol o tua 20% i 25% rhwng y ddau gyfnod allweddol. Mae Swyddogion wedi llunio nifer o fesuriadau ymyrraeth i gefnogi disgyblion yn trosglwyddo o ysgolion cynradd i uwchradd er mwyn gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cael eu heithrio neu ymddieithrio yn y broses addysg ac o ganlyniad yn tangyflawni gan y byddai hynny'n cael effaith ar eu canlyniadau mewn bywyd. Wedi'i restru yn yr adroddiad oedd y gwahanol fathau o gefnogaeth a mesurau

ymyrraeth ar gael i ddisgyblion. Gellir dechrau nifer o fesurau ymyrraeth pe bai disgybl yn dechrau rhoi i fyny ar y system addysg h.y. trwy ddefnyddio'r system TRAC. Byddai'r system yn adnabod y math mwyaf priodol o gefnogaeth i ddisgybl ar sail unigol, gan gynnwys yr amgylchedd ddysgu mwyaf effeithiol sydd ei angen i gefnogi eu haddysg i sicrhau fod y disgybl yn ffynnu ac yn cyflawni eu potensial. Fodd bynnag mae'n bwysig sylweddoli nad yw'r holl ddisgyblion yn cyflawni'r trothwy cynhwysol Lefel 2 ar CA4, ond y nod yw sicrhau y byddan nhw'n cyflawni eu gorau.

Mae Sir Ddinbych yn cofnodi pob disgybl unigol o'r diwrnod y maent yn cael eu cynnwys ar system addysg y Sir tan y diwrnod y byddant yn gadael. Er bod yr awdurdod lleol yn gwybod eu disgyblion a'u hanghenion yn dda mae'n debyg ei fod angen dangos tystiolaeth o'r prosesau a gwella cyfanswm ei wybodaeth. Mae Atodiad 1 o'r adroddiad yn cynnwys enghraifft o'r matrices olrhain a ddefnyddiwyd i fonitro cynnydd disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (AAA), neu sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim, gyda Saesneg fel iaith ychwanegol neu wedi eu hystyried yn ddisgyblion dros dro. Mae'r matrices yn rhoi proffil o bob disgybl sydd o bosib angen cefnogaeth ychwanegol. Mae defnyddio'r matrices yn sicrhau fod yr holl ffactorau wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu pa fath o gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen arnynt. Wrth benderfynu ar y math a lefel o unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen bydd swyddogion yn ystyried cofnod presenoldeb disgyblion yn ogystal â'u hymddygiad ac unrhyw waharddiadau o ysgolion.

Er bod mesurau atebolrwydd ar fin newid eto yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 a fyddai'n cymhlethu'r broses o adnabod anghenion cefnogaeth ymhellach, roedd pob ymdrech posib yn cael ei wneud i ddatblygu system a fyddai'n adnabod yr holl ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ac i roi strategaethau ymyrraeth briodol yn eu lle.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Gwella Ysgolion – Uwchradd:

- Mae'r ddogfen matrices wedi'i ddatblygu i gael ei ddefnyddio gan yr holl staff addysg mewn ysgolion, yn y sector gynradd ac uwchradd h.y. Pennaeth, Pennaeth Blwyddyn, Pennaeth Adran, swyddogion Gwasanaeth Addysg gan gynnwys Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae staff mewn ysgolion yn ei ddefnyddio i bennu a rhoi mesurau ymyrraeth briodol yn eu lle. Mae GwE wedi cadw gwybodaeth debyg ac mae'r Gwasanaeth Addysg yn ystod eu cyfarfodydd rheolaidd â GwE yn triogli'r dystiolaeth a gedwir ac yn herio unrhyw gefnogaeth y maent wedi'i ddarparu i sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer pob disgybl yn seiliedig ar eu proffiliau unigol. Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth enghraifft o'r math o gefnogaeth a sut y mae'n cael ei weithredu ar gyfer disgybl unigol trwy ddefnyddio'r proffil wedi'i ddatblygu ar y matrices;
- Swyddogion yn cydnabod bod y newid rhwng addysg gynradd ac uwchradd yn fwy heriol i rai disgyblion nag eraill, gan olygu fod rhai sydd wedi perfformio yn dda ar lefel cynradd ddim yn perfformio cystal â'r disgwyl yn dilyn newid.

Fodd bynnag oherwydd cyfanswm y data ar bob disgybl sydd gan bob Gwasanaeth gallent adnabod disgyblion sydd wedi ei chael hi'n anodd ar ôl newid yn y dyddiau cynnar er mwyn sicrhau digon o ymyrraeth a chefnogaeth fel eu bod yn cyflawni eu llwyr botensial erbyn diwedd y cyfnod o addysg statudol;

- gwybodaeth wedi'i gynnal ar ba ysgol gynradd y mae'r disgybl wedi'i fynychu cyn symud i'r sector uwchradd ac felly byddai swyddogion yn gallu adnabod unrhyw batrymau neu duedd datblygol o dan gyflawni.
Er hynny nid oedd unrhyw ysgol gynradd yn y sir yn destun unrhyw fesurau Estyn, roeddent i gyd yn perfformio'n dda;
- ers cyflwyno CA3 tydi'r cwricwlwm heb gael ei adolygu.
Mae hyn yn broblem cenedlaethol ac mae gwaith wedi mynd rhagddo i adolygu ei gynnwys er mwyn ateb anghenion yn well yn y dyfodol;
- Os bydd anghysondebau yn ymddangos rhwng asesiadau athrawon a chanlyniadau profion cenedlaethol byddai'r swyddogion Addysg yn archwilio anghysondebau o'r fath i sicrhau fod y proses asesu gan athrawon yn gadarn a heriol.
Bydd unrhyw anghysondebau yn cael eu trafod gyda GwE bob pythefnos mewn cyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng staff y Gwasanaeth Addysg a swyddogion GwE;
- un tuedd wedi'i nodi o dan y proses proffilio disgyblion unigol ac wedi'i ddefnyddio gan y sir oedd disgyblion yn perfformio'n dda mewn mathemateg a gwyddoniaeth ond yn dueddol o beidio â pherfformio cystal mewn Saesneg neu Gymraeg, ac i'r gwrthwyneb;
- y ffaith fod canlyniadau arholiadau llenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg ddim yn cyfri rhagor at gyrhaeddiad trothwy cynhwysol Lefel 2 CA4 yn profi'n dipyn o her;
- disgyblion wnaeth drosglwyddo o addysg gynradd cyfrwng Saesneg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno i'r iaith a'r derminoleg trwy ddarpariaeth trochi.
Mae eu cynnydd wedi cael ei olrhain yn rheolaidd trwy'r gronfa ddata;
- Ysgol Brynhyfryd wedi datblygu cronfa ddata olrhain tra datblygedig ar gyfer ei ddisgyblion sydd yn ymddangos i fod yn hynod o effeithiol.
Ysgolion eraill yn y sir bellach yn mabwysiadu elfennau o'r system hwn ac yn ei addasu i gwrdd ag anghenion dadansoddi data ei hunain; ac
- os bydd swyddogion yn amau fod ysgol yn cyflwyno data anghywir neu annilys yna byddant yn cael eu herio'n sylweddol gan y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant

Yn ymateb i bryderon aelodau fod y Cyngor efallai wedi rhoi gormod o sialens i'w hun ac mewn perygl o fethu oherwydd graddau'r uchelgais ar gyfer yr elfen cyflawniad disgyblion sy'n rhan o'r flaenoriaeth gorfforaethol yn ymwneud â phobl ifanc yn ei Gynllun Corfforaethol, mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi cynghori mai'r nod oedd gwneud yn siŵr fod disgyblion y sir yn cyflawni hyd eithaf eu gallu o fewn system sydd ddim yn berffaith.

Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Swyddog a'r swyddogion am eu hadroddiad a'u hesboniadau, ac:

Penderfynwyd: yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r sicrwydd a roddwyd uchod bod y Pwyllgor yn hyderus fod eu holl ddisgyblion yn cael eu cefnogi i gyflawni eu holl botensial yng Nghyfnod Allweddol 4

6 RHEOLI YMDDYGIAD YN YSGOLION SIR DDINBYCH

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r atodiadau (wedi eu dosbarthu'n barod) a oedd yn crynhoi'r tueddiadau mewn gwaharddiadau parhaol a thymor penodol fe gynghorodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc bod aelod wedi gofyn am yr adroddiad oherwydd ei bryderon ynglŷn â'r nifer o waharddiadau tymor penodol o bum niwrnod neu lai yn ysgolion y sir. Yn ystod ei gyflwyniad dywedodd yr Aelod Arweiniol er bod Estyn fel rhan o'r archwiliad diweddar o Wasanaeth Addysg y Cyngor wedi archwilio'r maes penodol hwn, doedd y corff heb wneud unrhyw argymhellion penodol mewn perthynas â pholisi neu gyfraddau gwahardd o'r ysgol. Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod gan y Cyngor uchelgais a pholisi i gadw plant mewn ysgol a'u cefnogi nhw drwy eu haddysg. Gwaharddiad parhaol o ysgol yw'r weithred olaf un pan fydd yr holl ymyriadau eraill wedi methu, roedd y gwaharddiadau dros y tymor byr felly yn uwch er mwyn mynd i'r afael â phroblemau fel nad oedd angen gwahardd disgybl yn barhaol gan fod gwahardd yn barhaol yn debygol o olygu y byddai disgybl 'ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NEET), wedi ymddieithrio, yn tangyflawni neu ddim yn cyflawni ac felly yn effeithio ar ei ganlyniadau bywyd o/hi.

Cynghorodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant fod:

- cyfraddau gwaharddiadau tymor penodol yn uwch mewn ysgolion uwchradd nac mewn ysgolion cynradd;
- cyfraddau gwahardd tymor penodol yn uwch mewn ysgolion cynradd mewn ardaloedd difreintiedig o'i gymharu ag ysgolion cynradd eraill;
- sicrhodd Gwasanaeth Addysg y Sir fod yr holl waharddiadau, yn rai tymor penodol a pharhaol, yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
O ganlyniad ni chaniateir i ysgolion anfon disgyblion adref 'i dawelu' ac ati gan fod ganddynt ddyletswydd gofal statudol am y plentyn ac yn sicrhau ei ddiogelwch o/hi;
- swyddogion yn hyderus bod y ffigyrau a adroddwyd yn gywir; data cywir yn allweddol i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu'r ymyrraeth a chefnogaeth briodol sydd ei angen;
- yr her ar gyfer y Gwasanaeth yw'r ymddygiad gymhleth y mae rhai disgyblion yn ei ddangos mewn rhai ysgolion, fel arfer yn gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (PNP).
Felly, angen archwilio cefndir pob plentyn unigol er mwyn deall beth o bosib fyddai'n achosi'r ymddygiad; ac
- mewn nifer o achosion byddai cyfnod gwahardd tymor byr o ddiwrnod neu ddau yn ddigon o gosb heb orfod troi at ddiarddeliad pellach

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Uwch Swyddog Gwella Ysgolion – Uwchradd:

- bod yr holl ddisgyblion yn cael eu olrhain trwy eu taith addysgol yn Sir Ddinbych; boed yn brif ffrwd neu ysgolion arbennig;

- disgyblion wedi eu hadnabod fel rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA), anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac ati yn cael eu darparu â'r gefnogaeth ychwanegol i gwrdd â'u anghenion.
Os bydd eu hymddygiad yn dod yn fwy heriol yna bydd yr Adran Addysg yn gweithio gyda'r ysgolion i'w helpu nhw, gan gynnwys y trawsnewid o addysg gynradd i uwchradd ac addysg bellach os oes angen. Mae swyddogion wedi amlinellu'r broses a ddefnyddiwyd i ddylunio ymyrraeth briodol i gwrdd ag anghenion unigol disgybl;
- cynghorwyd mai un o'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd yn y nifer o waharddiadau tymor penodol o 5 diwrnod neu lai yn ystod 2015/16 oedd am fod un o'r ysgolion uwchradd wedi newid pennaeth a bod y pennaeth newydd yn llai goddefol o ymddygiad gwael;
- cadarnhawyd fod y Sir heb newid ei Bolisi Rheoli Ymddygiad mewn Ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf.
Fel gwasanaeth, cyfrifoldeb y Gwasanaeth Addysg yw sicrhau fod ysgolion unigol yn dilyn y gweithdrefnau cywir ac yn gweithredu mesurau ymyrraeth briodol i gefnogi'r disgybl dan sylw i gyflawni eu potensial ac i'w hosgoi rhag tarfu ar addysg disgyblion eraill
- cydnabod er bod y nifer o waharddiadau tymor penodol o 5 diwrnod neu lai yn y sir ddim wastad yn uwch nag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru roeddent yn fodlon bod y mesur yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol ar gyfer y bwriad o sicrhau fod mesurau ymyrraeth priodol yn cael eu gweithredu i osgoi gwaharddiadau pellach ac i leihau'r tebygrwydd o ddisgybl yn bod yn NEET
Gwaith wedi mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda ysgolion mewn ymgais i leihau'r nifer o waharddiadau tymor penodol trwy ddarparu gwasanaethau cefnogi ymddygiad ar safle yn yr ysgolion. Rhestr o atebion eraill i waharddiadau tymor penodol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Mae gan Sir Ddinbych hanes blaenorol da o reoli dysgwyr sydd mewn risg o fod wedi'u hymddieithrio ac yn awyddus i'r enw da yn y maes hwn i gael ei wella ymhellach;
- cynghorwyd fod cyfanswm sylweddol o hyfforddiant wedi'i wneud gyda staff yn yr ysgolion ar adnabod anghenion ychwanegol ac arbennig mewn disgyblion h.y. awtistiaeth a dyslecsia.
Mae Ysgol Plas Brondyffryn wedi cynnig gwasanaeth estyn allan i ysgolion priif ffrwd ar gyfer cefnogi plant ag awtistiaeth. Mae'r Gwasanaeth wedi hyrwyddo'r cyfle i ysgolion ddilyn rhaglen Achredu Awtistiaeth a fyddai'n golygu y byddent yn cael eu dyfarnu gyda nod barcud Awtistiaeth a fyddai'n dangos eu bod yn sefydliadau cyfeillgar i awtistiaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cyfathrebu â grwpiau cefnogi arbenigol hefyd mewn perthynas ag anghenion disgyblion, mae'r gwaith yn allweddol i ddeall anghenion pobl yn cefnogi disgyblion gydag awtistiaeth. Yn ogystal mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n agos â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Ond wedi dweud hynny ni fydd yn disgwyl am ddiagnosis swyddogol cyn rhoi cefnogaeth a mesurau ymyrraeth yn eu lle i blant sy'n ymddangos o fod ag ymddygiad iechyd meddwl, awtistiaeth neu dyslecsia. Byddai ymyrraeth yn cael ei wneud ar y cyfle cyntaf posib ac yn cael ei adolygu ar ôl derbyn diagnosis gan CAMHS;

- dywedwyd wrth yr aelodau bod y Gwasanaeth hefyd yn ymdrechu i leihau maint dosbarthiadau mewn ysgolion gyda'r bwriad o greu amgylchedd ddysgu bositif a chefnogol;
- cydnabod er fod cynnydd o tua 30 i 70 o ddisgyblion ar gyfer pob 1,000 o ddisgyblion yn y nifer o waharddiadau tymor penodol o 5 diwrnod neu lai o fewn cyfnod o 3 i 4 blynedd yn uchel iawn, roedd yn bwysig deall yn y blynyddoedd diwethaf fod ysgolion y sir wedi bod yn delio â rhai problemau ymddygiad cymhleth iawn a bod angen llawer iawn o ymyrraeth. Roedd yna bob tro reswm wrth wraidd yr ymddygiad oedd yn arwain disgyblion i fod yn heriol yn yr ysgol;
- cynghorwyd fod dod â'r Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaeth Plant o dan un pennaeth gwasanaeth wedi helpu staff ysgolion a gwasanaethau addysg i gael gafael ar wasanaethau cefnogi arbenigol yn gynt ac i sicrhau fod cefnogaeth digonol ar gael i ddisgyblion unigol yn yr ysgol a'r cartref; a
- cynigwyd y cyfle i aelodau ymweld ag Ysgol Plas Cefndy, yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn y Rhyl a'r cyfleuster Cerrig Camu yn Rhuthun i weld y gwaith sy'n cael ei wneud yno.

Ar ddiwedd y drafodaeth roedd y Pwyllgor wedi cydnabod fod dull y sir o adrodd ar ddata gwahardd o'r ysgol yn gywir ac yn ddiwyll. Cytunodd yr aelodau mai dim ond fel y dewis olaf y dylid ystyried gwaharddiad pan fo pob dim arall wedi methu. Mae cynnig ymyrraeth adferol gyda'r bwriad o wella ymddygiad ac ymrwymiad ac osgoi camgymeriadau yn allweddol er mwyn ceisio osgoi costau pellach i'r gymdeithas yn y dyfodol. Aelodau:

Penderfynu: yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) i gefnogi dull y Cyngor o reoli ymddygiad yn ysgolion y sir;***
- (ii) gofyn i 'Adroddiad Gwybodaeth' gael ei baratoi a'i ddsbarthu i'r aelodau yn dilyn cyhoeddi data 2016-17 ar waharddiadau ysgol yng Nghymru, gan roi manylion o ffigyrau gwahardd o'r ysgol yn Sir Ddinbych gan gynnwys manylion o bob ysgol unigol yn y sir a'r rhesymau dros wahardd y disgyblion; ac***
- (iii) bod ymweliad yn cael ei drefnu i aelodau ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgor ag Ysgol Plas Cefndy a chyfleuster Cerrig Camu***

Cyn gadael y cyfarfod fe ddywedodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant wrth yr aelodau am ganlyniadau cyfarfod yr oedd wedi'i fynyachu gyda chynrychiolwyr Grŵp Llandrillo Menai ar eu trefniadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol i fyfyrwyr ar ôl i'r Grŵp gyhoeddi yn ddiweddar eu bod yn cau'r cyfleuster yn Ninbych.

Dywedwyd wrth yr Aelodau:

- bod y Cyngor wedi'i sicrhau y bydd y cyrsiau sy'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd yng Ngholeg Dinbych ar gael i fyfyrwyr presennol mewn safleoedd eraill y Grŵp;
- bod rhan fwyaf y myfyrwyr sy'n mynychu'r safle yn Ninbych yn byw yng ngogledd y sir;

- bod y Grŵp ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau i ailstrwythuro ei ddarpariaeth er mwyn arbed costau ac mai Coleg Dinbych oedd gyda'r nifer lleiaf o fyfyrwyr allan o'i holl safleoedd.
Mae'r nifer o gyrsiau ar gael yno yn gyfyngedig, ac ar ben hynny mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n mynychu'r cyrsiau yn isel ac yn gwneud dyfodol y safle yn annichonadwy;
- mae'r Grŵp wedi cynllunio rhai cyrsiau yn Ninbych yn y dyfodol a byddai'r rhain yn cael eu dysgu yn 'Yr Hwb'
- mae'r Grŵp yn parhau gyda'r gwaith a'r bwriad o sicrhau dyfodol yr adeilad; ac
- byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Grŵp mewn perthynas â darpariaeth trawsnewid ôl-16 a'r cyfleoedd i lenwi'r diffyg darpariaeth i fyfyrwyr Ysgol Plas Brondyffryn ar ôl cau'r Coleg.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth o ran darpariaeth prif ffrwd y byddai'r Cyngor yn fodlon gyda'r darpariaeth y mae'r Grŵp yn gynnig ei ddarparu yn y dyfodol.

7 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL, MAWRTH 2018

Cyflwynodd Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ag Asedau yr adroddiad a'r atodiadau (wedi'i ddsbarthu yn barod) a oedd yn cyflwyno fersiwn ffurfiol wedi'i ddiweddarau i'r Pwyllgor o Gofrestr Risg y Cyngor i'w ystyried. Fel rhan o'i gyflwyniad, fe dynnodd yr Aelod Arweiniol sylw at y prif newidiadau a wnaed i'r gofrestr risg fel y rhestrwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad. Ar ddiwedd ei gyflwyniad fe eglurodd bod y risg ynghlwm ag ad-drefnu llywodraeth leol wedi cael ei dynnu o'r gofrestr yn ddiweddar. Er hynny yn dilyn cyhoeddiad diweddar fod ad-drefnu llywodraeth lleol yn cael ei ystyried unwaith eto mae'n bosib y bydd y risg yn ymddangos unwaith eto pan fydd y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cofrestr Risg nesaf. Mewn perthynas â'r risg newydd yn gysylltiedig â'r arian sydd yn dod yn ôl i Sir Ddinbych o'r buddsoddiad a wnaed ar y Bargaen Twf Rhanbarthol fe eglurodd ei fod yn risg newydd a dieithr ar hyn o bryd ac felly dyna'r rheswm pam fod ei sgoriau risg cychwynol a gweddilliol union yr un fath ar hyn o bryd. Y disgwyliad wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen yw bod y sgôr risg gweddilliol yn lleihau. Mae'r sgôr risg gweddilliol o ran gallu'r Cyngor i gynnig cyllideb cytbwys wedi cynyddu. Mae'r penderfyniad i gynyddu'r sgôr risg gweddilliol yn seiliedig wrth symud ymlaen fod camau gweithredu angen sicrhau bod cyllidebau cytbwys yn cael eu darparu a byddai angen gwneud rhai penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd iawn a fyddai'n cael sylw negyddol iawn yn y wasg a gyda'r potensial o niweidio enw da y Cyngor.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau a'r Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol:

- er mwyn ei gwneud hi'n haws cyfeirio yn y dyfodol y byddan nhw'n darparu crynodeb o'r prif newidiadau mewn fformat a fyddai'n cynnwys y risgiau wedi eu grwpio gyda'u gilydd yn yr un categorïau h.y. newydd, wedi'u tynnu, newid, dim newidiadau, gyda'r adroddiad eglurhaol yn tynnu sylw at newidiadau cysylltiedig;

- cadarnhawyd fod yr achosion risg yn debygol o fod o fwy o ddiddordeb i'r cyhoedd h.y. cyflwr priffyrdd, mynwentydd ac ati wedi eu cynnwys yn y Gofrestr Risg Gwasanaethau.
Mae'r cofrestri hyn yn bwydo i mewn i'r Gofrestr Risg Corfforaethol mwy strategol. Mae risgiau wedi'u nodi yn y Cynlluniau Gwasanaethau yn cael eu rheoli fel rhan o'r broses i gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor; ac
- cadarnhau fod fersiynau'r dyfodol o'r gofrestr yn cynnwys enwau Aelodau Arweiniol perthnasol a pherchnogion risg yn hytrach na nodi 'i'w gadarnhau'.

Ar ddiwedd y drafodaeth roedd y Pwyllgor wedi:

Penderfynu: yn amodol ar y sylwadau uchod i gael eu gweithredu i gadarnhau y dileadau, yr ychwanegiadau a'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Gofynnodd yr aelodau os oedd cynrychiolydd o Kingdom am fynychu pan fyddai'r Pwyllgor yn archwilio perfformiad y cwmni ar weithredu camau gorfodi ar ran y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf ar 7 Mehefin. Dywedodd y Cydlynnydd Craffu y dylid gofyn i swyddogion wahodd yr uwch swyddog mwyaf priodol o'r cwmni i fynychu.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth yr aelodau fod yr Adroddiad Cenedlaethol ar Reoli Gwastraff a oedd yn fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod Mehefin yn gorfod cael ei newid i'r hydref am fod yr adroddiad heb gael ei gyhoeddi eto. Pwyllgor yn:

PENDERFYNU yn amodol ar y sylwadau a'r diwygiadau uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Canmolodd y Cynghorwyr Arwel Roberts a Geraint Lloyd-Williams y cyfarfod herio gwasanaeth diweddar a fynychodd y ddau. Gofynnodd yr aelodau i'r rhestr diweddaraf o gynrychiolwyr y pwyllgor craffu ar Grwpiau Herio Gwasanaeth i gael ei ddsbarthu iddyn nhw.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:42am

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	7 Mehefin 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Teitl:	Adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddefnyddio Kingdom Security Ltd ar gyfer gorfodaeth troseddau amgylcheddol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Bwriad yr adroddiad yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar weithgareddau gorfodaeth troseddau amgylcheddol y Cyngor sydd dan gontract gyda Kingdom Security Ltd. Mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn rheoli'r contract, sut mae'n rheoli perfformiad, ydyw'n darparu gwerth am arian ac ymddygiad swyddogion Kingdom tuag at enw da y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Mae Aelodau wedi gofyn am ddiweddariad ar weithgareddau gorfodaeth troseddau amgylcheddol Kingdom Security Ltd a pha reolau sydd ar waith i sicrhau bod y contract yn cael ei reoli'n briodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 trafod cynnwys yr adroddiad; yn cefnogi'r strategaeth barhaus a phartneriaeth gyda Kingdom Security Ltd ar gyfer gorfodaeth troseddau amgylcheddol; ac
- 3.2 yn unol â chyfarwyddiadau gan y Cyngor Sir, rhoi argymhellion i'r Cabinet ynghylch darpariaeth y gwasanaethau gorfodaeth trosedd amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Ym mis Hydref 2012 penododd y Cyngor Kingdom Security Ltd i ymgymryd â gorfodi trosedd amgylcheddol ar draws y Sir, newid ymddygiad cyhoeddus a chyfrannu tuag at flaenoriaeth 'strydoedd glân a thaclus' y Cyngor.
- 4.2 Mae Kingdom yn darparu 1 Arweinydd Tîm, 4 swyddog gorfodaeth ac 1 swyddog gweinyddol. Maent wedi'u lleoli yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, yng Nghaledfryn, Dinbych ac maent yn cael eu hanfon allan ar draws y Sir. Mae yna gontract ysgrifenedig ar waith sydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.
- 4.3 Mae'r contract yn cael ei reoli gan y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Tim Wynne-Evans, Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol, yw swyddog Cyngor Sir Ddinbych sydd yn gyfrifol am reoli'r berthynas ac yn goruchwylio perfformiad Kingdom o ddydd i ddydd. Caiff swyddogion Kingdom eu rheoli gan drefniadau gweithredu tystiolaethol a safonol llym. Caiff eu hymddygiad wrth ymdrin ag aelodau'r cyhoedd ei gofnodi trwy gamerâu sy'n cael eu gwisgo ar eu dillad a chânt eu gwirio'n gyson.

- 4.4 Mae Swyddogion Kingdom yn gyfrifol am orfodaeth yn erbyn amrywiaeth o droseddau amgylcheddol gan gynnwys taflu sbwriel, baw cŵn, tipio anghyfreithlon, ysmegu mewn mannau caeedig, graffiti a thorri Rhybuddion Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Baw ci yw'r ffynhonnell fwyaf cyson o gwynion a sbwriel sy'n ymwneud ag ysmegu yw ffynhonnell y nifer fwyaf o sydd yn arwain at roi Rhybuddion Cosb Benodedig (RhCB). Mae Atodiad A yn cynnwys manylion am bob Rhybudd Cosb Benodedig sydd wedi cael ei roi dros y 12 mis diwethaf, yn cynnwys y math o drosedd a'r lleoliadau.
- 4.5 Caiff Swyddogion Kingdom eu hanfon i lefydd trwy ddefnyddio dull sy'n cael ei gyfarwyddo gan gudd-wybodaeth. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu hanfon yn rheolaidd i ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o gwynion neu lle mae tystiolaeth bod unigolion yn diystyru deddfwriaeth ac yn cyflawni troseddau. Yn unol â chytundebau dan gontract, mae presenoldeb swyddogion ar draws y sir yn llawer mwy cymesur gan ddarparu gwasanaeth i'r cymunedau lleiaf. Mae'r mannau gwaethaf yn cael mwy o sylw a gorfodaeth benodol. Rydym hefyd yn gwneud ymdrech benodol i ddarbwyllio aelodau o'r cyhoedd i fod yn fwy cadarnhaol tuag at berchnogion cŵn sydd yn troseddu. Mae bagiau baw cŵn a bonion sigarennau yn cael eu rhoi am ddim i aelodau'r o'r cyhoedd gyda chynghor priodol.
- 4.6 Mae cyswllt personol gydag Aelodau a Chynghorwyr Tref bellach yn arfer rheolaidd. Caiff Aelodau wahoddiad personol i fynd ar batrôl ac ar archwiliadau amgylcheddol yn eu ward gyda swyddogion gorfodi.
- 4.7 Mae patrôl penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd i fynd i'r afael â baw cŵn yn y mannau gwaethaf. Mae'r rhain wedi cynnwys mynd allan yn fuan yn y bore ac ar benwythnos i leoliadau megis Marine Lake (y Rhyl), Rhodfa'r Dwyrain (y Rhyl), Parc Glan yr Afon a llwybr y gamlas yn Llangollen, Parc Cae Ddôl (Rhuthun), Moel Famau (Rhuthun) a thraeth y Nova a Barkby, Prestatyn, i enwi ond ychydig. Mae'r cwynion am faw cŵn ar ei lawr yn Sir Ddinbych. Caiff hyn ei adlewyrchu'n genedlaethol yn arolygon Cadwch Gymru'n Daclus sydd yn dangos gostyngiad mewn baw cŵn ar y strydoedd. Mae'r nifer o rybuddion cosb benodedig a roddwyd am faw cŵn gan Swyddogion Kingdom yn Sir Ddinbych wedi bod yn gyson ymysg y gorau yng Nghymru. (Atodiad C) Yn 2011/12, rhoddodd y Cyngor 18 rhybudd cosb benodedig am faw cŵn cyn i Kingdom ddod i Sir Ddinbych.
- 4.8 Mae addysg yn rhan sylweddol o'r gwaith y mae Swyddogion Kingdom yn ei wneud hefyd. Maent yn aml yn rhoi cyngor i berchnogion cŵn ac yn rhoi bagiau baw cŵn am ddim ac ati ac maent wedi mynychu digwyddiadau cyhoeddus ar Bromenâd y Rhyl a Moel Famau a gynlluniwyd i addysgu'r cyhoedd am drosedd amgylcheddol. Mae cysylltiad y swyddogion gorfodi mewn digwyddiadau o'r fath wedi bod yn llwyddiant mawr.

- 4.9 Mae cydweithio gyda Gwasanaethau Amgylcheddol yn darparu un ymagwedd er mwyn atal a dal troseddwr trwy drosglwyddo gwybodaeth ac adnabod y manau gwaethaf am few cŵn trwy ddefnyddio chwistrell sialc ar y pafin. Mae'r chwistrell sialc a defnyddio negeseuon stensil yn ffordd hawdd o adnabod y baw sydd angen ei glirio ac mae'n rhybuddio troseddwr bod swyddogion ar batrôl yn yr ardal. Mae Aelodau wedi gwneud nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch perfformiad rhagweithiol swyddogion Kingdom ac am ansawdd rheoli'r adnodd. Mae swyddogion wedi rhoi adroddiadau diweddar i bob Grŵp Ardal yr Aelodau.
- 4.10 Rhybuddion Cosb Benodedig (RhCB)
- 4.11 Os caiff trosedd amgylcheddol ei chyflawni, yna bydd y Swyddog yn cyflwyno RhCB yn erbyn y troseddwr. Mae swyddogion yn defnyddio eu doethineb yn aml os yw'r person o dan sylw yn hynod ddiarneddffyn neu os oes amgylchiadau eithriadol. Nid yw unigolion dan 18 oed yn gymwys i gael Rhybudd Cosb Benodedig. Mae'n rhaid i swyddogion ystyried y dystiolaeth lawn a phrawf lles y cyhoedd ym mhob sefyllfa. Mae'n rhaid cael gobaith gwirioneddol bod rhywun yn cael ei ganfod yn euog petai'r achos yn cael ei glywed yn Llys Ynadon cyn i Rybudd Cosb Benodedig gael ei roi.
- 4.12 Os yw RhCB yn cael ei gyflwyno, yna mae'n rhaid i'r troseddwr yn ôl y gyfraith dalu'r ddirwy (£75 neu £100) o fewn 28 diwrnod ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau. Os bydd y troseddwr yn talu'r ddirwy, yna bydd y mater wedi'i gau ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Gellir gweld cyfanswm y RhCB a roddwyd, y math o drosedd ac ardal y drosedd yn Atodiad A. Mae'n amlwg mai sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu sy'n parhau i fod y drosedd fwyaf cyffredin a'r un y cyflwynir y mwyaf o RhCB yn eu cylch.
- 4.13 Os nad yw'r ddirwy yn cael ei thalu ar ôl anfon dau lythyr atgoffa o fewn 28 diwrnod, bydd gweinyddwr Kingdom yn llunio Gweithdrefn Cyfiawnder Sengl i erlyn y troseddwr. Caiff y ffeil hon ei hadolygu gan Reolwyr CSDd ac os byddwn yn cytuno, bydd y ffeil yn cael ei chyflwyno i'r Gwasanaethau Cyfreithiol i symud ymlaen. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y Llys yn rhoi dirwy i'r troseddwr ac yn y rhan fwyaf o achosion yn dyfarnu costau. Telir y ddirwy i'r Llywodraeth Ganolog ac mae'r Cyngor yn derbyn dyfarniad y Llys o'r costau.
- 4.14 Gwybodaeth Ariannol
- 4.15 Y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a chydweithwyr yn yr adran gyllid sy'n monitro'r gwariant ac incwm yn rheolaidd. Mae gan y Cyngor drefniant 'talu am bob rhybudd' gyda Kingdom, sy'n golygu mai dim ond am y nifer o RhCB a roddir y mae Kingdom yn cael eu talu. Mae'r taliad yn 60% o'r ddirwy. Os oes llai o RhCB yn cael eu rhoi yna mae'r Cyngor yn talu llai i Kingdom. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyngor gostau sefydlog megis cyflogau ac ati. Mae swyddogion yn credu bod hyn yn werth da am arian, hy, nid oes yna gost i ni am y gwasanaeth ac rydym yn derbyn canran o'r ddirwy o bob RhCB a roddir, sydd yn talu am ein costau rheoli a gwaith "arall" sy'n gysylltiedig â gorfodaeth.
- 4.16 Y gyfradd dalu bresennol ydi 76% cyn bod achosion yn cael eu cyfeirio at y Llys Ynadon.
- 4.17 Mae'r Cyngor wedi talu £162,435 i Kingdom ar gyfer 2017/18. Caiff y gost ei thalu gydag incwm RhCB.

4.18 Mae hyn yn golygu nad yw dros 4727 RhCB yn ystod 2017/2018 i fynd i'r afael â throedd amgylchedd wedi costio dim i'r Cyngor ac mae canlyniadau gweladwy i'w gweld gyda strydoedd glanach.

4.19 Fodd bynnag, mae swm sylweddol o incwm eto i'w gasglu oddi wrth y rhai nad ydynt eto wedi talu eu RhCB neu heb dalu'r costau a ddyfarnwyd gan y Llysoedd.

4.20 Rhyngweithio â'r Cyhoedd/Cwynion

4.21 Rhwng cyfnodau 2015/16, 16/17 a 17/18 cafodd cyfanswm o 15,409 RhCB eu rhoi am droseddau amgylcheddol. Nid oes yna apêl yn erbyn RhCB, serch hynny gall aelodau o'r cyhoedd gyflwyno cwyn yn unol â pholisi cwynion corfforaethol y Cyngor. Mae Atodiad B yn manylu ar y nifer o gwynion a dderbyniwyd dros y blynyddoedd diwethaf. O ystyried y nifer o rybuddion a roddwyd, mae'r nifer o gwynion a gafwyd fel % o'r holl RhCB a roddwyd yn isel iawn (1%), ac mae hyn hyd yn oed yn is o ystyried y niferoedd sy'n cael eu cefnogi. Os oes lle i gredu bod swyddogion Kingdom yn tangyflawni neu nad ydynt yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau gweithredu, cânt eu symud o'r lleoliad ac fe anfonir staff newydd yn eu lle.

4.22 Mae pob cwyn yn cael ei harchwilio'n drwyadl gan Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor sy'n cynnwys cyfweild â swyddogion, tystion a gwylio ffilm fideo camera ar y corff a fideo mewn mannau cyhoeddus a gymerwyd o bob digwyddiad. Mae Rheolwyr CSDd hefyd fel mater o drefn yn gwirio nifer o ffilmiau fideo ar hap i fonitro ymddygiad a phroffesiynoldeb y Swyddogion yn rhagweithiol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r gwaith yn cyfrannu at Flaenoriaeth Corfforaethol o amddiffyn ein hamgylchedd. Mae hefyd yn rhan annatod o'r strategaeth gorfforaethol ar faw cŵn.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Caiff y costau eu talu gyda'r incwm gwirioneddol rydym yn ei gael. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn gwasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Adroddiad diweddar yw hwn, felly nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

8.1 Mae adroddiadau blaenorol wedi cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu Perfformiad. Darperir diweddariadau rheolaidd i'r Aelod Arweiniol, Grwpiau Ardal yr Aelodau a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn ystod y flwyddyn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r trefniant presennol yn dangos gwerth am arian i'r cyngor.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae risgiau o gyhoeddusrwydd negyddol, ond mae hyn yn cael ei reoli trwy reoli da a chadarn gan Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - pŵer i wneud unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 - pŵer i wneud unrhyw beth i hwyluso neu sy'n atodol i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r cyngor.

Mae Adran 7.2 Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod amod y gall y Pwyllgor Craffu adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig. Mae hefyd yn nodi y gall y Pwyllgor Craffu gyflwyno adroddiadau i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau.

Swyddog Cyswllt:

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Rhif Ffôn: 01824 706350

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Atodiad A - 1 Ionawr 2017 – 31 Rhagfyr 2017

Math o drosedd


Sbwriel sigarennau	3600	76.17%
Pob math arall o sbwriel	142	3.03%
Ysmygu mewn man di-fwg	803	17%
Baw Cŵn	90	1.9%
Cardota	6	0.13%
Yfed allan o lestr agored	70	1.48%
Loetran	3	0.06%
Pasio dŵr	11	0.23%

Lleoliad

Bodelwyddan	456	9.65%
Corwen	30	0.63%
Dinbych	255	5.40%
Dyserth	9	0.19%
Henllan	1	0.02%
Llangollen	129	2.73%
Llanrhaeadr	8	0.17%
Gallt Melyd	8	0.17%
Prestatyn	946	20.02%
Rhuddlan	243	5.14%
Y Rhyl	2415	51.11%
Rhuthun	131	2.77%
Llanelwy	90	1.90%
Trefnant	4	0.08%

Atodiad B

Blwyddyn	Cyfanswm y cwynion a gafwyd	Heb ei chadarnhau	Cadarnhawyd	Wedi cadarnhau'r gŵyn yn rhannol
2015	76	66	9	1
2016	85	61	23	1
2017	69	53	13	4



Arolygon Cadwch Gymru'n Daclus

2014/2015-10.6% o strydoedd Cymru oedd â baw cŵn arnynt.
Rhybudd Cosb Benodedig am faw cŵn, gyda **232**

2015/2016-12.3%

2016/2017-8.9%

2017/2018-8.6%

Daeth CSDd yn gyntaf o blith 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru o ran rhoi

CSDd yn 2^{il} gyda **108**

CSDd yn 4^{ydd} gyda **86**

90 RhCB, nid oes ffigurau cymharu ar gyfer Cymru gyfan ar gael eto

Cyn i Kingdom ymgymryd â'r gwaith baw cŵn, roedd CSDd yn perfformio'n wael yn y maes yma, er enghraifft yn 2011/12, dim ond 18 RhCB a roddodd Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	7 Mehefin 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Seilwaith Cymunedol/Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol
Teitl:	Adroddiad Eich Llais – Ch4 2017/18

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r canmoliaethau, awgrymiadau a chwynion y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi eu derbyn dan bolisi adborth cwsmeriaid y cyngor 'Eich Llais' yn ystod Chwarter 4 2017/18. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol a gafwyd o dan y weithdrefn gwyno statudol.

